COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGWM 27.07.22

.

PRESENNOL – Llyr Jones (Cadeirydd) ,Gwyn Davies, Carwyn Edwards, Awel Hughes, Sioned Jones, Alun Jones, Glennydd Evans, Cyng. Gwennol Ellis, Rhian Ellis (Clerc)

1. YMDDIHEURIADAU – Gwynfryn Jones

2. DATGAN BUDDIANNAU – Dim

3. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF – Cynigwyd yn gywri gan Gwyn ac eilwyd gan Glennydd

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION – Heb gael arwydd ar y fynwent, y clerc I ddal I holi.

Aros I Ian ddod yn ol gyda pris I adnewyddu y wal.

Dywedodd y Cynghorydd Gwennol Ellis bod y bont wrth Tegla a hefyd pont Ty Gwyn wedi eu trwsio a bod Asantiaeth yr Amgylchedd wedi cadarnhau eu bod am drwsio pont Y Glyn o fewn y flwyddyn.

5. CYLLIDEB - Yn y Banc 29.06.22 - £21,114.34

Gwariant hyd yma o Gronfa Nant Fach £500.00

6. TALIADAU - Cynigwyd talu yr isod gan Carwyn ac eilwyd gan Sioned a phawb yn gytun.

| | | |
|---|---|---|
| Rhys Jones trydanwr | s137 | £ 756.66 |
| Sioned Jones blodau | s137 | £ 60.29 |
| Zurich Insiwrans | s137 | £ 677.77 |

Penderfynwyd bod taliadau Rhys Jones a Sioned Jones I ddod allan o gronfa Nant Fach

7. NEUADD FACH - .Dim adborth

8.CAEAU CHWARAE - Dinmael – Er bod y Sir wedi gaddo adnewyddu y cae chwarae, does dim byd yn symud ymlaen – Cyng Gwennol Ellis I gael sgwrs gyda aelodau o'r Sir I weld beth sydd yn digwydd.

Llangwm – Mae'r sir yn barod I adnewyddu yr eitemau yn y cae chwarae a bod angen cyfraniad gan y Cyngor Cymuned tuag at y ffens/matiau.Y clerc yn aros am wybodaeth gan Mr Bryn Shelton I weld beth fyddai'r gost.

Cafwyd wybod bod y meinciau yn y parc yn iawn.

Mae'r goeden wrth y Parc yn mynd I gael ei thori a bod ni fel cyngor yn cael cadw y coed tan. Penderfynwyd cynnig y coed I rhai sydd yn edrych ar ol y blodau yn y pentre a hefyd I'r henoed.

Mae'r dewis hefyd gan y Pwyllgor I gerfio rhywbeth ar fon y goeden pan fydd wedi ei thorri.

9. CYNLLUNIO –

10. GOHEBIAETH – Derbynwyd llythyr yn gwahodd aelod o’r Pwyllgor I ddiwrnod Cyhoeddi Eisteddod Powys – nid oedd neb ar gael I fynychu.

11. UNRHYW FATER ARALL –

1. Sioned I gysylltu gyda Richard Griffiths Swyddog Amgylcheddol I gael cyfarfod ynglyn a’r coed yn Dinmael,, Carwyn a Glen I gyfarfod gyda fo ar ran y Pwyllgor.

2. AWDIT – Aros gyda JHJ

3. y clerc I gael prisiau I beintio/farnishio safle bws Ty Nant.

4. Mae Llwybr y Glyn am gael ei dacluso yn y misoedd Medi/Hydref/Tachwedd.

DYDDIAD CYFARFOD NESA.

MEDI